



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by



Strategaeth Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol Ddraf



Gaeaf 2024

Ariennir gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gyda chefnogaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Funded by the UK Government through the Shared Prosperity Fund, with support from Carmarthenshire County Council

Rhagair

“Rydym yn falch o gyflwyno'r Strategaeth Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Cam hanfodol tuag at feithrin dyfodol mwy gwyrdd, iach a chynaliadwy i'n cymunedau. Mae'r strategaeth yn amlinellu ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer creu mannau hygrych a ffyniannus lle gall pobl gysylltu â natur, tyfu eu bwyd eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu llesiant.

Mae mannau tyfu wedi bod yn ganolog i wead llawer o gymunedau ar draws y sir. Maent nid yn unig yn darparu ffordd o dyfu cynnyrch ffres, lleol, ond hefyd yn lle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, dysgu ac ymdeimlad o le. Maent yn gyfle i feithrin cyfeillgarwch a dealltwriaeth ddyfnach o'r byd naturiol o'n cwmpas. Mewn cyfnod lle mae cynaliadwyedd amgylcheddol, diogelwch bwyd ac iechyd yn bwysicach nag erioed, mae rôl mannau tyfu yn hanfodol.

Mae'r strategaeth yn nodi map ffordd clir ac ymarferol ar gyfer gwella ac ehangu mannau tyfu ledled Sir Gaerfyrddin. Ei nod yw ateb y galw cynyddol am fannau o'r fath wrth sicrhau bod mannau presennol yn gynaliadwy, yn gynhwysol ac yn cael eu rheoli gan ystyried anghenion ein cymunedau amrywiol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi unigolion a grwpiau sy'n dymuno cymryd rhan, p'un a ydynt yn arddwyr profiadol neu'n ddechreuwr sy'n awyddus i ddysgu.



Cyng. Aled Vaughan Owen

Aelod Cabinet dros Newid
Hinsawdd, Datgarboneiddio a
Chynaliadwyedd



Cyng. Carys Jones

Aelod Cabinet dros Faterion
Gwledig, Cydlyniant
Cymunedol a Pholisi Cynllunio

Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu dan arweiniad y gymuned ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau lleol, rhanddeiliaid a chyrrff cyhoeddus, ein nod yw creu dull cydweithredol o dyfu a all addasu i anghenion unigryw pob cymuned, o ganolfannau trefol i bentrefi gwledig.

Wrth i ni symud ymlaen, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi ac annog y mudiad tuag at gynhyrchu bwyd lleol, stiwardiaeth amgylcheddol a gwytnwch cymunedol. Bydd yr amcanion a amlinellir yn chwarae rhan bwysig wrth lunio dyfodol mwy cynaliadwy, a fydd o fudd i'r amgylchedd a phreswylwyr Sir Gaerfyrddin.

Cynnwys

Trosolwg	1
Rhan A: Cyd-destun	2
Cyflwyniad	3
Pwrrpas.....	4
Mathau o Fannau Tyfu Cymunedol.....	8
Fframwaith y Polisi	11
Rheolau Tenantiaeth Rhandiroedd.....	14
Cytundeb Rhandiroedd.....	14
Maint y Llain.....	14
Cynnyrch Llain.....	14
Rhannu a Throsglwyddo Llain.....	15
Anifeiliaid ar Randiroedd.....	15
Gweithdrefn ar gyfer Cael Rhandir.....	15
Dod â thenantiaeth i ben.....	16
Rhan B: Rheolau Tenantiaeth Rhandir.....	17
Cofrestru Safleoedd Rhandiroedd a Thyfu	18
Ardal	20
Perchenogaeth a Rheolaeth Tir.....	21
Llain	22
Cyfleusterau.....	22
Cais am Lain.....	22
Data Rhestr Aros	23
Prawf Safonau Lle Rhandiroedd	24


Arolwg Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol	26
Cyfranogwyr a Demograffig	27
Ward Etholiadol.....	28
Darpariaeth	30
Diddordeb.....	32
Manteision.....	39
Rhwystrau	40
Cyfleusterau	41
Sylwadau Ychwanegol.....	42
Crynodeb o ganfyddiadau	43
Rhan C: Strategaeth	44
Rhan D: Darpariaeth Amgen a Chymorth.....	51
Cyngor & Chymorth.....	52
Tabl naw: Adnoddau Cyngor a Chymor	52
Cyfleoedd Tyfu Amgen.....	53
Adnoddau Ychwanegol.....	55
Atodiadau	56
Atodiad A: Arolwg Rhandiroedd a Mannau Tyfu Cymunedol	57

Trosolwg

Cafodd y strategaeth bresennol ei chyd-ddylunio gan Gyngor Sir Gaerfyrddin mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach. Mae wedi'i rhannu i'r rhannau annibynnol canlynol er hwylustod gweithredu a hefyd i hwyluso diweddariadau pan fo angen:

- ➔ [Rhan A: Mae'r cyd-destun](#) yn amlinellu pwrpas y strategaeth hon ac yn cyflwyno'r mathau o fannau tyfu cymunedol, yr ystod o fuddion a ddarperir, yn ogystal â'r fframwaith polisi sy'n ymwneud â rhandiroedd yng Nghymru.
- ➔ [Rhan B: Mae'r Arolwg Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol](#) yn ymchwilio i'r ddarpariaeth a'r galw presennol yn Sir Gaerfyrddin, yn sgil gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae'r rhan hon hefyd yn darparu gwybodaeth allweddol am asedau presennol, y cyfleusterau sydd ar gael, a rhwystrau posibl i fynediad.
- ➔ [Rhan C: Strategaeth](#) yn nodi'r uchelgais hirdymor ar gyfer sicrhau bod mannau tyfu yn cael eu darparu yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, gan gydnabod y rôl sydd gan y rhain wrth hyrwyddo diogelwch bwyd, ffyrdd iach o fyw a chymunedau cynaliadwy. Mae'r rhan hon hefyd yn rhoi gwybodaeth am sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni ac erbyn pryd.
- ➔ [Rhan D: Mae Gweithredu a Chyfarwyddyd](#) yn rhoi gwybodaeth am sut i gael rhandir neu sefydlu eich man tyfu cymunedol eich hun. Cyfeirir hefyd at adnoddau a wneir gan sefydliadau eraill.

Cafodd y broses o baratoi'r ddogfen hon ei chefnogi gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.



Rhan A: Cyd-destun

Cyflwyniad

Ers amser maith, mae Sir Gâr wedi cael ei galw'n Gardd Cymru'. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfleoedd tyfu bwyd lleol wedi dod yn fwy poblogaidd. Mae corff o dystiolaeth sy'n cefnogi'r syniad y gall tyfu eich cynnyrch eich hun fod o fudd i bobl a'r blaned, boed hynny drwy wella llesiant corfforol a meddyliol neu drwy gyfyngu ar nifer y milltiroedd bwyd ar ein platiau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod rhwymedigaeth glir ar gyrff cyhoeddus i hwyluso newid sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, cadarn ac iach. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod, drwy ddiogelu ein darpariaeth bresennol o randiroedd a mannau tyfu yn ogystal â chefnogi datblygiad asedau newydd, y gallwn helpu i wneud ein cymunedau'n hapusach ac yn iachach, gan greu cyflenwad bwyd mwy diogel a chynaliadwy ar gyfer Sir Gaerfyrddin hefyd.



Pwrpas

Yn y bôn, nod y strategaeth hon yw rhoi cyfle i fwy o bobl drochi eu dwylo a thyfu eu cynnyrch eu hunain. Gan ymateb hefyd i ofynion polisi lleol fel yr adolygwyd yn ddiweddarach ar dudalen 3, lluniwyd y strategaeth hon yn unol â Llywodraeth Cymru sydd, [o fewn ei chanllawiau arfer da](#), wedi nodi'r hyn a ddisgwylir gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â darpariaeth rhandiroedd. Drwy gymryd ymagwedd fwy cyfannol at gydnabod gwerth mathau eraill o fannau tyfu cymunedol sy'n bresennol yn Sir Gaerfyrddin, bydd y strategaeth hon yn:

- ➔ Hyrwyddo mynediad at rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol ac yn cydnabod eu manteision
- ➔ Esbonio'r gwahanol fathau o rhandiroedd a chynlluniau tyfu eraill
- ➔ Esbonio hawliau a chyfreithiau sy'n ymwneud â rhandiroedd mewn modd syml
- ➔ Disgrifio a mapio darpariaethau presennol yn y Sir

- ➔ Cynnwys cyfeirio at fanylion cyswllt y safle a sut i ddod o hyd i reolau tenantiaeth
- ➔ Asesu'r galw am fannau tyfu cymunedol drwy ymgynghoriad cyhoeddus
- ➔ Gosod strategaeth glir ar gyfer darpariaethau diogelu ac ateb y galw sydd heb ei ddiwallu
- ➔ Llunio camau gweithredu a monitro i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'n amserol
- ➔ Amlinellu proses gam wrth gam ar gyfer cael rhandir
- ➔ Cynnwys gweithdrefn glir ar gyfer cynnig tir i gymunedau sy'n dymuno sefydlu rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol yn eu hardal leol
- ➔ Darparu dolenni i adnoddau ac arweiniad a wneir gan sefydliadau lleol a chenedlaethol



Manteision garddio

Mae manteision garddio yn eang. Yn y bôn, mae'n rhoi cyfle ar gyfer gweithgaredd corfforol, a all fod o fudd i iechyd a llesiant cyffredinol, wrth hefyd ddarparu mynediad at ffrwythau a llysiau maethlon a chreu llecyn cyhoeddus a ddefnyddir gan lawer ac y gofelir amdano. Mae rhandiroedd a gerddi cymunedol yn cael eu hystyried gan lawer fel elfennau hanfodol o fyw bywyd mwy hapus, iach a chynaliadwy, ac yng ngoleuni'r argyfyngau hinsawdd a natur, maent yn bwysicach nag erioed.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o fanteision lu tyfu i unigolion a chymunedau.



Dynol	
Ffyrdd o fyw egnïol	Mae cymryd rhan mewn tyfu cynnyrch yn gofyn am dipyn o waith corfforol a all wella iechyd corfforol unigolion a hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol. (“My little piece of the planet”: the multiplicity of well-being benefits from allotment gardening Emerald Insight)
Cydlyniant cymunedol ac ymdeimlo o gysylltiad	Gall cymryd rhan mewn tyfu wella cydlyniant cymunedol ac ymdeimlad o gysylltiad o fewn cymunedau gan ei fod yn helpu i gysylltu pobl ag unigolion eraill o'r un meddylfryd ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. (“My little piece of the planet”: the multiplicity of well-being benefits from allotment gardening Emerald Insight)
Addysg	Gall tyfu cynnyrch mewn lleoliad cymunedol hefyd hyrwyddo addysg naill ai'n anffurfiol gan gyfranogwyr eraill neu drwy gynlluniau addysg a hyfforddiant mwy ffurfiol a drefnir gan reolwyr y safle. (“My little piece of the planet”: the multiplicity of well-being benefits from allotment gardening Emerald Insight)
Bwyta bwyd iachus	Gall rhandiroedd gynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch iach a ffres i unigolion a'r gymuned leol sydd yn aml wedi'u tyfu gan ddefnyddio llai o gemegau ac sydd â gwerth maeth uwch. (Benefits of allotment gardening – The National Allotment Society – National Society of Allotment and Leisure Gardeners Ltd (nsalg.org.uk))
Llesiant meddyliol	Mae amrywiaeth o dystiolaeth yn cefnogi'r syniad bod mynediad at natur a threulio amser yn yr awyr agored yn effeithio'n gadarnhaol ar lesiant meddyliol, gall leihau straen, unigrwydd a gwella hyder. (Improving access to greenspace: 2020 review (publishing.service.gov.uk))
Iechyd Corfforol	Mae'n hysbys bod mynediad at natur a garddio yn gwella rhai cyflyrau iechyd corfforol fel materion anadlol yn ogystal â chyfradd marwolaethau. Canfu astudiaeth yn yr Iseldiroedd y gall 10% mwy o gysylltiad â mannau gwyrdd arwain at welliannau iechyd sy'n debyg i fod bum mlynedd yn iau. Nearby green space and human health: Evaluating accessibility metrics - ScienceDirect
Amgylcheddol	
Bioamrywiaeth a Chynefin	Gall safleoedd a reolir yn effeithiol hyrwyddo bioamrywiaeth a chynnig cynefin i nifer o rywogaethau. Maent hefyd fel arfer wedi lleihau (ac mewn rhai achosion sero) defnydd o chwynladdwyr a phlaleiddiaid sy'n cynnal bioamrywiaeth (Wildlife and allotments – The National Allotment Society – National Society of Allotment and Leisure Gardeners Ltd (nsalg.org.uk))
Allyriadau Carbon a Milltiroedd Bwyd	Mae unigolion sy'n tyfu eu bwyd eu hunain yn lleihau milltiroedd bwyd yn sylweddol sy'n lleihau'r allyriadau carbon o gynhyrchu a chludo bwyd. (growing-community-second--8f5.pdf (local.gov.uk))

Economaidd	
Helpu gyda chostau byw	Er ei bod yn bwysig cydnabod y costau cysylltiedig, gall tyfu eich bwyd eich hun helpu i leihau eich bil bwyd wythnosol trwy ategu eich anghenion ffrwythau a llysiau.
Economi Leol	Mae cynnyrch y gellir ei olrhain yn lleol yn aml yn cael ei werthu mewn marchnadoedd lleol ac mewn siopau bach annibynnol a all gefnogi'r economi leol.

Tabl 1- Manteision Tyf

Mathau o Fannau Tyfu Cymunedol

P'un a oes gennych ddigon o amser neu os ydych am gymryd rhan yn achlysurol yn unig, mae llawer o wahanol opsiynau i bobl gymryd rhan mewn tyfu yn eu cymuned. Mae'r mathau mwyaf poblogaidd o fannau tyfu cymunedol yn cael eu trafod yn fyr isod:

Rhandiroedd

Mae sawl math o randiroedd y rhoddir lefelau gwahanol o ddiogelwch cyfreithiol iddynt. Mae gan y rhan fwyaf restrau aros ac maent yn codi ffi flynyddol, sy'n dibynnu ar faint yr ardal dyfu yr hoffech ei chael a'r cyfleusterau sydd ar gael.



Rhandiroedd Statudol

Mae'r rhain yn safleoedd sydd wedi cael eu caffael gan awdurdod lleol at y prif ddiben o'u defnyddio fel rhandiroedd. Maent yn cael eu cwmpasu a'u diffinio yn y gyfraith ar randiroedd, ac ni ellir eu gwerthu heb ganiatâd Gweinidogion Cymru y mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon y bydd darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer deiliaid rhandiroedd sydd wedi'u dadleoli. Os bydd y cyfrifoldeb am reoli'r safle wedi cael ei drosglwyddo neu os bydd y safle wedi'i osod ar brydles, nid yw'r statws statudol hwnnw'n newid.

Rhandiroedd Dros Dro

Gall tir sy'n cael ei ddal gan awdurdod lleol at ddiben arall gael ei ddefnyddio fel rhandir dros dro. Ar wahân i reoliadau cynllunio, nid yw'r math hwn o randiroedd yn cael eu diogelu gan y gyfraith ar randiroedd.

Safleoedd rhandiroedd sy'n eiddo i'r gymuned

Mae rhandiroedd ar dir sy'n eiddo i'r gymuned neu dir preifat yn debyg i randiroedd dros dro gan nad ydynt yn cael eu diogelu gan y gyfraith ar randiroedd.

Gerddi Cymunedol

Mae'r rhain yn fannau a rennir lle mae pobl yn dod at ei gilydd i dyfu ffrwythau, llysiau, blodau a pherlysiau. Mae'r gerddi hyn fel arfer yn cael eu cynnal gan grŵp o wirfoddolwyr sy'n cydweithio i drin y tir ond sydd hefyd yn creu ymdeimlad o gymuned. Mae'r rhain i'w gweld mewn ardaloedd trefol, maestrefol a gwledig ac maent yn adnoddau gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo arferion cynaliadwy, darparu mynediad at gynnyrch ffres, a meithrin cysylltiadau cymdeithasol.

Cynlluniau Bwyd Bendigedig

Mae llawer o drefi yng Nghymru yn cymryd rhan yn y mudiad Bwyd Bendigedig. Mae'r mentrau cymunedol hyn yn canolbwyntio ar dyfu bwyd mewn mannau cyhoeddus i bawb eu rhannu. Boed yn plannu ffrwythau, llysiau neu berlysiau

mewn gwahanol fannau cyhoeddus fel parciau, ysgolion a thir nad yw'n cael ei ddefnyddio, nod y fenter yw hyrwyddo cynhyrchu bwyd yn lleol, annog ymgysylltu cymunedol, a chynyddu mynediad at gynnyrch ffres. Mae'r prosiectau hyn yn aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Perllannau Cymunedol

Mae'r rhain yn fannau a rennir lle mae coed ffrwythau yn cael eu tyfu a'u cynnal gan grŵp o wirfoddolwyr neu aelodau o'r gymuned. Mae'r perllannau hyn yn darparu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd, dysgu am dyfu coed ffrwythau, a mwynhau'r cynhaeaf. Gall perllannau cymunedol helpu i gynyddu mynediad at ffrwythau ffres, wedi'u tyfu'n lleol, hyrwyddo bioamrywiaeth trwy ddarparu cynefin i fywyd gwylt, a chyfrannu at ymdeimlad o berchnogaeth a balchder cymunedol.



Amaethyddiaeth â Chefnogaeth y Gymuned

Menter gymdeithasol yw hon, sy'n seiliedig ar bartneriaeth weithgar, uniongyrchol rhwng ffermwyr (neu brosiect tyfu) a'r gymuned leol. Trwy dalu ffi ymlaen llaw, mae'r model hwn yn helpu i gefnogi ffermwyr lleol trwy roi sefydlogrwydd ariannol iddynt ac yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad uniongyrchol at gynnyrch ffres a thymhorol. Mae ganddynt y gallu i hyrwyddo cysylltiad agosach rhwng defnyddwyr a'r bwyd y maent yn ei fwyta, annog arferion ffermio cynaliadwy, a lleihau effaith amgylcheddol cludo bwyd.

Garddio yn y cyfamser

Mae garddio yn y cyfamser yn cyfeirio at y defnydd dros dro o dir gwag ar gyfer prosiectau gwyrdd nes bod angen y tir eto at ei ddiben gwreiddiol. Mae'r arfer hwn yn caniatáu i gymunedau drawsnewid ardaloedd sydd wedi'u hesgeuluso yn fannau gwyrdd bywiog ar gyfer tyfu bwyd, blodau, neu greu gerddi cymunedol, gan liniaru effaith mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn na'u caru.

Cynlluniau rhannu gerddi

Nod y cynlluniau hyn yw cysylltu pobl sydd â gardd, ond efallai nad oes ganddynt yr amser na'r gallu i'w chynnal, â'r rhai sy'n chwilio am le i dyfu eu ffrwythau, llysiau neu flodau eu hunain. Gall perchnogion gardd gynnig eu gardd nad yw'n cael ei defnyddio i unigolion neu grwpiau sydd â diddordeb mewn garddio. Mae'r trefniant hwn yn golygu bod modd rhannu defnydd tir, mae'n hyrwyddo cysylltiadau cymunedol, ac yn annog amaethyddiaeth drefol gynaliadwy.



Fframwaith y Polisi

Yng Nghymru, mae darnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu rhandiroedd yn cynnwys:

Mae **Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908** yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu rhandiroedd pe bai 6 neu fwy o bobl yn gofyn amdanynt.

Mae **Deddf Rhandiroedd 1922** yn nodi'r cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi i adael y llain; yr hyn y gellir ei dyfu ar y llain a'r cyfyngiadau ar gadw anifeiliaid ar y llain; maint llain unigol; yr hyn y gellir ei wneud â'r cynnyrch a dyfir ar y llain; a chyfyngiadau ar rannu a throsglwyddo'r llain.

Mae **Deddf Rhandiroedd 1925** yn ei gwneud yn ofynnol i rhandiroedd gael eu hystyried ym mhob cynllun cynllunio tref, ac na ellid gwaredu tir sydd wedi'i gaffael neu ei brynu ar gyfer rhandiroedd heb ganiatâd gan weinidogion.

Mae **Deddf Rhandiroedd 1950** yn ailddatgan y gofyniad y dylai awdurdodau lleol ddarparu rhandir mewn ardaloedd trefol; yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw cwningod ac ieir ar safleoedd rhandiroedd; yn sicrhau y bydd y rhent a godir am lain rhandir yn cael ei osod am y rhent ag y gellir disgwyl yn rhesymol i denant ei thalu am y tir.

Mae **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020** yn darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwaith datblygu sy'n cynnwys codi, estyn, addasu neu ddisodli siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu cymunedol.

Er na chafodd yr un o'r Deddfau hyn eu diddymu yn gyfan gwbl, mae rhai adrannau naill ai wedi cael eu golygu neu eu disodli gan Ddeddfau mwy diweddar.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o bolisiâu a strategaethau allweddol sy'n berthnasol i ddarparu rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol.

Lleol	
Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027	Mae datganiad gweledigaeth y Cabinet yn cynnwys mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cryfhau'r economi a chynyddu ffyniant, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith, a'r amgylchedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae hyrwyddo bwyta cynnyrch mwy cynaliadwy gydag ôl troed carbon is trwy randiroedd yn cyd-fynd â'r weledigaeth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chyflawni Sero Net.
Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2022-2027	Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys nifer o egwyddorion sy'n ymwneud â mynediad at natur a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Canlyniad Amcan 2, galluogi preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda, yw ' <i>gwasanaethau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden</i> .' Mae mynediad i le rhandir yn cefnogi'r canlyniad hwn yn uniongyrchol trwy greu cyfleoedd dysgu a hamdden sy'n cefnogi llesiant a diwylliant. Mae gan Amcan 3 hefyd gysylltiad agos addas â darpariaeth rhandiroedd drwy'r canlyniad ' <i>mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i fyw bywydau egniol ac iach trwy fynediad at wasanaethau a darpariaeth sy'n addas i'r diben</i> '. Profwyd bod darparu rhandiroedd yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.
Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-28	Cynllun 2023-28 yw'r ail asesiad a gynhyrchir gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n cynnwys dau amcan y gellir eu cefnogi gan ddarpariaeth rhandiroedd: <i>Arferion Iach a Chysylltiadau Cryf</i> . Mae rhandiroedd yn darparu cyfleoedd i unigolion ddod yn fwy cysylltiedig â'u cymuned leol, gan leihau unigedd a hyrwyddo ffyrdd mwy iach o fyw trwy gynhyrchu cynnyrch ffres.
Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin	Ceir thema gyffredinol yn y cynllun datblygu hwn sef creu lleoedd, a ategir gan bolisiau penodol sy'n amlinellu sut y mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd ystyried materion megis darpariaeth mannau agored cyhoeddus, dylunio cynaliadwy, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, ac ansawdd aer. Fel mannau agored cyhoeddus, mae gwarchod mannau tyfu cymunedol rhag dosbarthiadau defnydd neu ddatblygiad amgen yn dod o dan REC1 Diogelu Mannau Agored o fewn Cynllun Datblygu Lleol 2006–2021. (fel arall, PSD7: Diogelu Mannau Agored yn amodol ar fabwysiadu'r CDLI diwygiedig)
Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas (datblygol)	Mae mannau tyfu yn Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas hanfodol. Gall integreiddio ag asedau eraill o fewn y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i ddarparu buddion amlswyddogaethol a sicrhau bod nwyddau cyhoeddus yn cael eu darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-25	Yn unol â'n Dyletswydd Adran 6 i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gall mannau tyfu ddarparu cynefinoedd pwysig a all gefnogi natur ac amcanion yn ein blaengynllun lleol.

Cenedlaethol	
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)	Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cymunedau cydnerth, diogel ac iach. Mae cynyddu a rheoli mannau tyfu yn cyd-fynd â chyfrifoldebau'r awdurdod lleol drwy sicrhau'r cyflenwad bwyd lleol, hyrwyddo cymunedau iachach, sicrhau cynhyrchiant bwyd cynaliadwy, a gwella bioamrywiaeth.
Deddf Cynllunio (Cymru) 2016)	Mae'r Ddeddf hon yn darparu fframwaith i reoli defnydd tir yn gynaliadwy i gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned (2010)	Nod y cynllun gweithredu hwn yw hyrwyddo ac annog tyfu bwyd yn y gymuned ledled Cymru i weithio tuag at ddiogelwch bwyd trwy gynnyrch lleol, cysylltu pobl â'r gadwyn fwyd, gwella iechyd a llesiant, darparu arfer gorau ar gyfer cymunedau'r dyfodol, a chynyddu diddordeb mewn tyfu bwyd.
Cynllun Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009)	Mae'r strategaeth, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006) yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwella cynaliadwyedd yn y meysydd canlynol: cymdeithas, economi, defnyddio adnoddau a'r amgylchedd a gwella llesiant Cymru. Mae rhandiroedd a darpariaethau tyfu yn cefnogi cymdeithas gynaliadwy, yn lleihau allyriadau carbon a llesiant.
Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned (2021)	Ail argraffiad o ganllawiau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2015. Er nad oes unrhyw ddeddfwriaeth yn rhoi terfynau amser ar gyfer ateb y galw am rhandiroedd heb ei ddiwallu, o fewn y ddogfen hon mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan Awdurdodau Lleol gan gynnwys bod yn rhaid gwneud rhywfaint o gynnydd o fewn blwyddyn i nodi unrhyw angen heb ei ddiwallu.

Tabl 2 - Polisiâu a strategaethau allweddol sy'n berthnasol i ddarparu rhandiroedd a mannau tyfu cymunedo

Rheolau Tenantiaeth Rhandiroedd

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â chytundebau tenantiaeth ar gyfer rhandiroedd statudol. Sylwch fod gan rhandiroedd yn Sir Gaerfyrddin eu rheolau tenantiaeth eu hunain yn unol â'u sefydliad rheoli. Dylai unrhyw barti sydd â diddordeb gysylltu â safle'r rhandiroedd yn uniongyrchol i drafod eu rheolau a'u cytundebau tenantiaeth.

Cytundeb Rhandiroedd

Defnyddir cytundeb tenantiaeth rhandiroedd pan fydd unigolyn yn rhentu llain sy'n cael ei llywodraethu gan Ddeddf Rhandiroedd 1922.

'Mae Deddf Rhandiroedd 1922 yn cynnwys y cyfyngiadau canlynol:

1. y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi i adael y llain
2. yr hyn y gellir ei dyfu ar y llain a'r cyfyngiadau ar gadw anifeiliaid ar y llain

3. maint llain unigol

4. yr hyn y gellir ei wneud â'r cynnyrch a dyfir ar y llain

5. cyfyngiadau ar rannu a throsglwyddo'r llain.'

Maint y Llain

Efallai y bydd gan safleoedd rai cyfyngiadau ynghylch nifer y lleiniau y gall tenant eu rhentu, ond nid oes cyfyngiad cyfreithiol. Dylai lleiniau fod yn $\frac{1}{4}$ erw (yn unol â Deddf 1992), ond yn aml ffefrir lleiniau llai gan eu bod yn haws i'w rheoli ac yn llai dwys o ran amser.

Cynnyrch Llain

Yn ôl Deddf 1922, mae'n rhaid tyfu'r cynnyrch yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddefnydd y tenant a'i deulu. Efallai y bydd diffyg penodoldeb yn rhoi rhyddid i denantiaid werthu rhywfaint o gynnyrch dros ben ond gall fod cyfyngiadau o fewn y cytundeb tenantiaeth.

Rhannu a Throsglwyddo Llain

Bydd gan bob safle rhandiroedd ei reolau ei hun ynghylch is-osod, rhannu llain a chymryd llain drosodd, y peth gorau yw gwirio'n uniongyrchol gyda'r sefydliad rheoli a chael caniatâd i osgoi'r risg o dorri'r cytundeb tenantiaeth.

Anifeiliaid ar Randiroedd

Nid oes darpariaeth gyfreithiol ar gyfer cadw anifeiliaid ar safleoedd rhandiroedd, ac eithrio cwningod ac ieir yn Neddf Rhandiroedd 1950. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gan bob safle reolau ychydig yn wahanol yn unol â'u cytundeb tenantiaeth.



Gweithdrefn ar gyfer Cael Rhandir

Nid oes gweithdrefn gyfreithiol ar gyfer cael rhandir, felly mae gan bob safle ddull gwahanol o gofnodi darpar ddeiliaid lleiniau. Mae'r rhandiroedd yn Sir Gaerfyrddin wedi nodi eu bod naill ai'n dymuno i ddarpar ddeiliaid lleiniau gysylltu â nhw'n uniongyrchol neu drwy ffurflen gais. I gael manylion penodol am ddewisiadau pob safle, gweler [Rhan D](#).

Os oes llain ar gael, bydd y sefydliad rheoli perthnasol yn llunio cytundeb tenantiaeth ar gyfer y llain/lleiniau sy'n amlinellu telerau'r cytundeb gan gynnwys côd ymddygiad, ffioedd a dyddiad cychwyn.

Os nad oes llain briodol ar gael, bydd y sefydliad rheoli yn cynnig cofnodi dewisiadau'r unigolyn a'u hychwanegu at eu rhestr aros nes bod safle priodol ar gael. Os nad yw hyn yn addas, efallai y bydd y sefydliad yn annog yr unigolyn i gysylltu â safleoedd rhandiroedd lleol eraill.

Dod â thenantiaeth i ben

Os yw'r sefydliad rheoli yn dymuno dod â thenantiaeth rhandir i ben, mae'n rhaid i'r sefydliad roi o leiaf 12 mis o rybudd ysgrifenedig i'r tenant, sy'n dod i ben ar neu cyn 6 Ebrill, neu ar neu ar ôl 29 Medi. Fodd bynnag, gellir defnyddio rhybudd i ymadael ar unrhyw adeg os yw tenant yn torri telerau'r cytundeb tenantiaeth neu os na fydd yn talu rhent am 40 diwrnod.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i denantiaid roi cyfnod penodol o rybudd; fodd bynnag, gall eu cytundeb tenantiaeth gynnwys amod ar y cyfnod rhybudd sy'n ofynnol yn benodol i'r safle rhandiroedd.






Rhan B: Rheolau Tenantiaeth Rhandir

Cofrestru Safleoedd Rhandiroedd a Thyfu

Cynhaliwyd yr archwiliad diweddaraf o safleoedd tyfu yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2024. Fe'i cynhaliwyd ar y cyd â rhandiroedd cofrestredig a mannau tyfu ynghyd â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Partneriaeth Bwyd Sir Gaerfyrddin a Bwyd Bendigedig. Nododd yr archwiliad 13 safle ledled y sir. Diffinnir rhai safleoedd fel rhandiroedd ac mae eraill yn cael eu diffinio fel mannau tyfu cymunedol neu fannau rhannu tir sy'n gosod lleiniau/gwelyau blodau uwch.

- 

Cofrestrfa Rhandiroedd Sir Gaerfyrddin



Ardal

Mae'r safleoedd a gofnodwyd yn cwmpasu ardal o 9.19 Ha. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o helaethder pob safle:

Safle	Arwynebedd (Ha)
Cae Maliphant, Cydweli	0.38
Rhandiroedd Heol y Coroni, Llanelli	0.41
Rhandiroedd Fferm Plas Dinefwr, Llandeilo	1.23
Lle Tyfu Dwyfor, Llwynhendy	0.24
Rhandiroedd Pum Cae, Caerfyrddin	3.02
Rhandiroedd Cymunedol Llan-non	0.59
Rhandiroedd Heol Trostre Isaf, Llanelli	0.16
Prosiect Rhannu Tir Pantyffynnon, Rhydaman	0.53
Rhandiroedd Parc Hinds, Caerfyrddin	0.63
Gerddi Cymunedol Pen-bre	0.53
Rhandir Sant Paul, Llanelli	0.71
Rhandiroedd Teras Sunninghill, Llanelli	0.56
Rhandir Hendy-gwyn ar Daf	0.21
Cyfanswm	9.19

Tabl 1 Arwynebedd Safleoedd Tyfu a Gofnodwyd, Sir Gaerfyrddin

Perchenogaeth a Rheolaeth Tir

Mae nifer o bartïon yn berchen ar y safleoedd ac yn eu rheoli, gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned, partïon preifat, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r sefydliad sy'n eu rheoli a thirfeddiannwr pob safle.

Safle	Tirfeddiannwr	Rheolwyr
Cae Maliphan, Cydweli	Cyngor Tref Cydweli	Cymdeithas Rhandiroedd Cydweli
Rhandiroedd Heol y Coroni, Llanelli	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cyngor Tref Llanelli
Rhandiroedd Fferm Plas Dinefwr, Llandeilo	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Cymdeithas y Dalar
Lle Tyfu Dwyfor, Llwynhendy	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cyngor Gwledig Llanelli
Rhandiroedd Pum Cae, Caerfyrddin	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cymdeithas Rhandir Pum Cae ar ran Cyngor Tref Caerfyrddin
Rhandiroedd Cymunedol Llan-non, Llan-non	Cyngor Sir Caerfyrddin	Grŵp Rhandir Cymunedol Llan-non
Rhandiroedd Heol Trostre Isaf, Llanelli	Cyngor Tref Llanelli	Cyngor Tref Llanelli
Prosiect Rhannu Tir Pantyffynnon, Rhydaman	Dim gwybodaeth ar gael	Cymunedau yn Gyntaf Pantyffynnon
Rhandiroedd Parc Hinds, Caerfyrddin	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cymdeithas Rhandiroedd Parc Hinds ar ran Cyngor Tref Caerfyrddin
Gerddi Cymunedol Pen-bre, Pen-bre	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cymdeithas Tyfu Cymunedol Pen-bre ar ran y Cyngor Tref
Rhandir Sant Paul, Llanelli	Preifat - Rees Richards a Phartneriaid, Abertawe	Cymdeithas Rhandir Sant Paul
Rhandiroedd Teras Sunninghill, Llanelli	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cyngor Tref Llanelli
Rhandir Hendy-gwyn ar Daf, Hendy-gwyn ar Daf	Preifat - S W a S M Allen	Fferm Pen-y-coed

Tabl 2 Perchenogaeth a Rheolaeth Tir Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol

Llain

Mae rhai o'r safleoedd yn rhentu amrywiaeth o hanner lleiniau a lleiniau llawn yn ogystal â gwelyau blodau uwch a lle i bolidwnnel. Mae llawer o safleoedd wedi nodi bod rhentu hanner llain yn fwy dymunol gan ei bod yn haws ei rheoli, yn enwedig i'r rheiny y mae tyfu'n rhywbeth newydd iddynt. Ar draws y safleoedd, mae cyfanswm o 317 o leiniau ar gael i'w rhentu.

Cyfleusterau

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob safle yn amrywio, ond mae gan y rhan fwyaf ffynhonnell ddŵr, naill ai trwy brif gyflenwad neu gasgenni dŵr glaw. Mae rhai hefyd yn cynnig toiledau compost, parcio, ffyrdd mynediad, a pholidwnneli.

Cais am Lain

O ran y safleoedd a ymatebodd i'r archwiliad, 2 o blith 13 yn unig sydd â ffurflen gais i ddarpar ymgeiswyr. Mae'r safleoedd eraill yn dibynnu ar bobl yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tîm rheoli i drafod lleiniau gwag ac i fynegi diddordeb. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y safleoedd a gofrestrwyd, manylion cyswllt a'r modd o wneud cais [yma](#).



Data Rhestr Aros

Dengys data a gasglwyd ym mis Mawrth 2024 fod 99 o unigolion yn aros am leiniau ar draws 13 o safleoedd a gofnodwyd. Mae hyn yn gynnydd o 28.5% o gymharu â'r ffigurau a gofnodwyd ym mis Tachwedd. Y gred yw y bydd y ffigwr yn debygol o fod yn uwch, gan fod tri safle heb ddarparu ffigurau rhestr aros. Er hynny, gan fod nifer o safleoedd rhandir yn cael eu rheoli gan ystod o sefydliadau gwahanol yn yr un cyffiniau, efallai fod rhywfaint o ddyblygu unigolion sydd ar y rhestr aros ar gyfer mwy nag un safle.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r ffigurau rhestr aros a ddarparwyd gan bob safle:

Safle	Ffigurau rhestr aros blaenorol (Tachwedd 2023)	Ffigurau rhestr aros presennol (2024)
Cae Maliphant, Cydweli	16	13
Rhandiroedd Heol y Coroni, Llanelli	40 ar draws Safleoedd Cyngor Tref Llanelli	37 ar draws Safleoedd Cyngor Tref Llanelli
Rhandir Fferm Plas Dinefwr, Llandeilo	Dim data	1
Lle Tyfu Dwyfor, Llwynhendy	1	0
Rhandiroedd Pum Cae, Caerfyrddin	Dim data	20
Rhandiroedd Llan-non, Llan-non	4	3
Heol Trostre Isaf, Llanelli	40 ar draws Safleoedd Cyngor Tref Llanelli	37 ar draws Safleoedd Cyngor Tref Llanelli
Prosiect Rhannu Tir Pantyffynnon , Rhydaman	Dim data	Dim data
Rhandiroedd Parc Hinds, Caerfyrddin	16	23
Rhandir Pen-bre, Pen-bre	Dim data	Dim data
Rhandir Sant Paul, Llanelli	Dim data	Dim data
Rhandir Teras Sunninghill, Llanelli	40 ar draws Safleoedd Cyngor Tref Llanelli	37 ar draws Safleoedd Cyngor Tref Llanelli
Rhandir Hendy-gwyn ar Daf, Hendy-gwyn ar Daf	Dim data	2
Cyfanswm	77	99

Tabl 5 Ffigurau Rhestr Aros am Safle

Prawf Safonau Lle Rhandiroedd

Ceir tystiolaeth bellach o ddiffyg lle i randiroedd trwy asesiad o ddarpariaeth rhandiroedd fesul Ward Etholiadol. Mae'r safon meincnod yn seiliedig ar 0.2 Ha o le rhandiroedd fesul 1,000 o bobl, sef yr hyn a argymhellir gan y Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol.

Mae'r asesiad yn nodi mai 2 ward etholiadol o blith 51 yn unig sydd â darpariaeth addas o ran rhandiroedd (Gogledd a De Tref Caerfyrddin, a Llandeilo). Yn seiliedig ar y safon meincod, mae diffyg o 28.4 Ha (neu 70 erw) ar draws y sir.

Mae'r tabl isod yn rhoi asesiad llawn o'r data:

Wardiau (2022)	Etholiadol	Gofyniad (Ha)	Safonol	Darpariaeth Bresennol (Ha)	Digonolrwydd (Ha)	(+/-)
Abergwili		0.47		0	-0.47	
Rhydaman		1.09		0.53	-0.56	
Y Betws		0.48		0	-0.48	
Bigyn		1.32		0.41	-0.91	
Porth Tywyn		0.81		0	-0.81	
Bynea		0.9		0	-0.9	
Gogledd a De Tref Caerfyrddin		1.82		3.64	1.82	
Gorllewin Caerfyrddin	Tref	1.1		0	-1.1	
Cenarth a Llangeler		1.11		0	-1.11	
Cil-y-cwm		0.51		0	-0.51	
Cwarter Bach*		0.57		0	-0.57	
Cynwyl Elfed		0.45		0	-0.45	
Dafen a Felinfoel		1.04		0	-1.04	
Elli		0.4		0	-0.4	
Y Garnant*		0.41		0	-0.41	
Glanaman*		0.5		0	-0.5	
Glan-y-môr		1.28		0.16	-1.12	
Glyn (Sir Gaerfyrddin)		0.43		0	-0.43	
Gors-las		1.02		0	-1.02	
Hendy		0.64		0	-0.64	
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)		0.86		0	-0.86	
Cydweli a Llanismel		1.01		0.38	-0.64	

Lacharn*	0.52	0	-0.52
Llanboidy*	0.42	0	-0.42
Llanddarog	0.41	0	-0.41
Llandeilo*	0.59	1.23	0.64
Llanymddyfri*	0.52	0	-0.52
Llandybie*	0.88	0	-0.88
Llanegwad	0.49	0	-0.49
Llanfihangel Aberbythych	0.35	0	-0.35
Llanfihangel-ar-arth	0.56	0	-0.56
Llangadog*	0.39	0	-0.39
Llangennech	1.09	0	-1.09
Llangynnwr	0.53	0	-0.53
Llangyndeyrn	1.05	0	-1.05
Llan-non	1.07	0.59	-0.48
Llanybydder	0.56	0	-0.56
Lliedi	1.07	0.56	-0.5
Llwynhendy	0.88	0.24	-0.63
Maenordeilo a Salem	0.53	0	-0.53
Pen-bre	0.84	0.53	-0.31
Pen-y-groes	0.61	0	-0.61
Pontyberem	0.57	0	-0.57
Saron	0.85	0	-0.85
Sanclêr a Llansteffan	1.04	0	-1.04
Cwm Lliedi	0.49	0	-0.49
Tre-lech	0.55	0	-0.55
Trimsaran	0.5	0	-0.5
Tŷ-croes	0.54	0	-0.54
Tyisha	1.01	0.71	-0.3
Hendy-gwyn ar Daf	0.48	0.21	-0.26
Cyfanswm	37.61	9.19	-28.4

Tabl 6 Prawf Safonau Lle Rhandiroedd

Arolwg Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol

Ym mis Gorffennaf/Awst 2024, cynhaliodd Tîm Gwyrddu Sir Gâr Arolwg Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol ledled y sir a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Crëwyd yr arolwg ar y cyd â nifer o randdeiliaid a gyfrannodd at gwestiynau a strwythur yr arolwg. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac roedd ar gael i'w gwblhau am gyfanswm o 29 diwrnod (5 Gorffennaf – 2 Awst 2024). Rhoddwyd cyfle i holl drigolion y sir lenwi'r arolwg yn y Gymraeg neu'r Saesneg.




Cyfranogwyr a Demograffig

Yn gyfan gwbl, cwblhawyd yr arolwg gan 146 o ymatebwyr. Tra bod nifer wedi ateb pob cwestiwn, mae'n bwysig nodi bod yr holl gwestiynau yn ddewisol, felly, cafodd rhai eu hateb yn fwy na rhai eraill. Er mwyn sicrhau bod y data'n cael ei arddangos yn gywir, mae nifer y cyfranogwyr a atebodd y cwestiynau a drafodwyd yn cael ei arddangos ym mhob ffigur, ynghyd â'r canrannau.

Darparodd cyfanswm o 141 o gyfranogwyr eu hoedran, gyda'r nifer uchaf o gyfranogwyr yn y categori 51-60 oed. Y nifer isaf o gyfranogwyr oedd y categori oedran 81-90 oed serch hynny, er bod yr arolwg ar gael i bob oedran, nid oedd unrhyw un o dan 18 oed wedi cymryd rhan.

Mae'r ffigur isod yn rhoi trosolwg o ystodau oedran y cyfranogwyr:

Ystod oedran



Ffigur 1 Ymateb i'r Arolwg: Ystod oedran cyfranogwr

Ward Etholiadol

Gofynnwyd hefyd i gyfranogwyr ddarparu eu codau post i nodi Ward Etholiadol, a darparwyd cyfanswm o 132 o gyfeiriadau y gellid eu nodi. Roedd y cyfeiriadau'n cwmpasu 42 o'r 51 Ward Etholiadol yn Sir Gaerfyrddin a dwy yn Sir Benfro. Y Ward Etholiadol gyda'r gyfradd gyfranogi uchaf oedd Llanymddyfri (16), ac yna Bigyn (12) a Gogledd a De Tref Caerfyrddin (8).

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o'r ardaloedd (fesul Ward Etholiadol) a nifer y cyfranogwyr o bob un:



Ward Etholiadol	Nifer y Cyfranogwyr
Abergwili	2
Rhydaman	1
Y Betws	1
Bigyn	12
Porth Tywyn	4
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	8
Cenarth a Llangeler	4
Cil-y-cwm	3
Crymych a Mynachlog-ddu*	1
Cwarter Bach	4
Elli	1
Garnant	2
Glan-y-môr	4
Glyn	1
Gors-las	1
Hendy	1
Hengoed	6
Cydweli a Llanismel	4
Talacharn	4
Llanboidy	4
Llanddarog	1
Llanymddyfri	16
Llanegwad	1
Llanfihangel Aberbythych	3
Llanfihangel-ar-arth	1
Llangadog	1
Llangennech	3
Llangyndeyrn	4
Llan-non	3
Llandybïe	1
Llanybydder	2
Lliedi	2
Llwynhendy	1
Maenordeilo a Salem	2
Arberth*	1
Pen-bre	5
Pen-y-groes	1
Saron	3
Sanclêr a Llansteffan	6
Cwm Lliedi	1
Tre-lech	2
Trimsaran	1
Tyisha	1
Hendy-gwyn ar Daf	2
Cyfanswm	132


*Ward Etholiadol Sir Benfro

Tabl 7 - Ymateb i'r Arolwg: Cyfranogwyr Fesul Ward Etholiadol. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan bobl o Wardiau Etholiadol Bynea, Gorllewin Tref Caerfyrddin, Cynwyl Elfed, Dafen a Felin-foel, Glanamau, Llandeilo, Llangynnwr, Pontyberem a Thŷ-croes yn Sir Gaerfyr

Darpariaeth

Yn gyntaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd unrhyw gyfleoedd ar gyfer rhandiroedd neu dyfu cymunedol yn eu tref neu bentref lleol. Nododd 48% o'r cyfranogwyr nad oedd cyfleoedd rhandir na thyfu cymunedol yn eu tref neu bentref lleol, a hefyd nid oedd 18% arall yn gwybod a oedd yna gyfleoedd ai peidio.

A oes unrhyw gyfleoedd rhandiroedd neu dyfu cymunedol yn eich tref neu bentref



Ffigur 2 Ymateb i'r Arolwg: A oes unrhyw gyfleoedd rhandiroedd neu dyfu cymunedol yn eich tref neu bentref lleol?

Gofynnwyd wedyn i'r rhai a atebodd 'oes' restru safleoedd rhandir a thyfu cymunedol yr oeddent yn ymwybodol ohonynt. Ysgrifennodd dros ddeugain o gyfranogwyr yn y blwch testun rhydd, gan restru 28 o leodd unigol. Roedd y mannau a restrwyd yn cynnwys rhandiroedd (14), mannau tyfu cymunedol (12) a mannau tyfu mewn ysgolion (2). Cafwyd

sylwadau ychwanegol hefyd a oedd naill ai heb roi digon o fanylion i ddod o hyd i'r man dan sylw neu nad oeddent yn ymwneud â man tyfu gweithredol penodol.

